

Gwaharddiad hyd at ddydd Iau 17 Mawrth 2022

Negeseuon allweddol ar gyfer partneriaid Caru Cymru

- Mae arolygon annibynnol glendid strydoedd yn rhoi 'cipolwg' ar sbwriel a materion ansawdd amgylcheddol eraill.
- Mae arolygon glendid strydoedd wedi cael ei gynnal ym mhob awdurdod lleol ers 2007-08. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn dod â data ynghyd o'r arolygon hyn i ddatblygu darlun ar draws Cymru o un flwyddyn i'r llall o gyflwr ein strydoedd.
- 'Pa Mor Lân Yw Ein Strydoedd?' yw'r adroddiad cyntaf o'i fath ers dechrau pandemig COVID-19. Am y tro cyntaf, mae'r adroddiad yn cynnwys data o sbwriel PPE.
- Cynhaliwyd yr arolygon glendid strydoedd fel rhan o Caru Cymru – menter wedi ei harwain gan Cadwch Gymru'n Daclus ac awdurdodau lleol i ddileu sbwriel a gwastraff.
- Mae Caru Cymru wedi derbyn cyllid trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Mwy o wybodaeth

Mae crynodeb o adroddiad Cymru gyfan a methodoleg yr arolwg ar gael ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus [keepwalestidy.cymru](https://www.KeepWalesTidy.cymru)

Am gymorth cyfathrebu, cysylltwch â Thîm Marchnata a Chyfathrebu Cadwch Gymru'n Daclus. Ebst comms@keepwalestidy.cymru neu ffoniwch 07875 662803

DATGANIAD I'R WASG

PRESS RELEASE

Gwaharddiad hyd at ddydd Iau 17 Mawrth 2022

Deunydd pacio yn sbwriel ar 64% o strydoedd Cymru

Mae adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus wedi datgelu graddfa sbwriel deunydd pacio oherwydd bwyd a diod 'wrth fynd'.

Mae adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus wedi datgelu bod sbwriel deunydd pacio wedi ei ganfod ar 64.2% o strydoedd ar draws y wlad.

'Pa Mor Lân Yw Ein Strydoedd?' yw'r adroddiad cyntaf o'i fath ers dechrau pandemig COVID-19. Mae'n dod â chanlyniadau ynghyd o filoedd o arolygon glendid strydoedd i roi 'cipolwg' ar sbwriel a materion eraill yn ymwneud ag ansawdd amgylcheddol.

Ymysg y mathau o ddeunydd pacio a gofnodwyd, canfuwyd sbwriel danteithion, yn cynnwys papurau melysion a phacedi creision, ar bron hanner y strydoedd. Roedd sbwriel diodydd yn dal ar y lefelau cyn y pandemig ac wedi ei ganfod ar 44% o'r strydoedd.

Cred llawer o elusennau amgylcheddol, yn cynnwys Cadwch Gymru'n Daclus a'i sefydliadau cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, y gallai gweithredu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) yn y DU fod yn dyngedfennol i ddileu sbwriel a gwastraff deunydd pacio.

Byddai cynllun EPR yn ei wneud yn ofynnol i gynhyrchwyr deunydd pacio dalu am drin neu waredu eu nwyddau. Bwriad hyn yw annog cynhyrchwyr i leihau gwastraff a hyrwyddo dylunio eu cynnyrch yn fwy cynaliadwy. Fel sydd yn wir gyda llawer o wledydd eraill Ewrop, mae'r cynigion presennol hefyd yn awgrymu y dylid cynnwys costau taflu sbwriel.

Dyweddodd Lesley Jones, Prif Weithredwr Cadwch Gymru'n Daclus:

“Mae mynychder sbwriel deunydd pacio ar draws Cymru yn cryfhau'r achos ymhellach dros EPR. Nid awdurdodau lleol yn unig sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â sbwriel ac mae'n rhaid lleihau'r baich ariannol ar arian cyhoeddus.

“Gwyddom fod yr ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd ar EPR wedi cael cefnogaeth gref. Mae gan y cynllun arfaethedig y potensial i drawsnewid y ffordd y mae'r sector preifat yn cefnogi glanhau strydoedd, gweithredu cymunedol a gweithgareddau atal sbwriel.”

Dyweddodd Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd:

“Does dim esgus dros daflu sbwriel ar rydym eisiau sicrhau bod pawb yn cymryd cyfrifoldeb dros waredu eu gwastraff yn gywir. Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau fel Cadwch Gymru'n Daclus i'w atal rhag digwydd yn y lle cyntaf er mwyn i bawb allu mwynhau ein cymunedau a'r golygfeydd rhagorol sydd gan Gymru i'w cynnig. Rydym yn cytuno gydag egwyddorion cynllun EPR a byddwn yn gwneud cyhoeddiad maes o law.”

Mae'r prif ganlyniadau o adroddiad *Pa Mor Lân Yw Ein Strydoedd?* yn cynnwys y canlynol:

- Sbwriel wedi ei daflu gan gerddwyr yw'r ffynhonnell fwyaf cyffredin o hyd.
- Sbwriel smygu yw'r math mwyaf cyffredin o sbwriel, wedi ei ganfod ar 74.6% o strydoedd.
- Cafodd sbwriel PPE ei gynnwys yn yr arolygon glendid strydoedd am y tro cyntaf. Cafodd masgiau eu canfod ar 8% o strydoedd (tua 10,700 o fasgiau wedi eu taflu fel sbwriel).

- Cafodd presenoldeb poteli a chaniau diodydd alcoholig eu cofnodi am y tro cyntaf a chawsant eu canfod ar 15.5% o strydoedd.
- Cofnodwyd baw cŵn ar 8% o strydoedd – y ffigur isaf ers i arolygon glendid strydoedd ddechrau yn 2007-08.

Cynhaliwyd yr arolygon glendid strydoedd fel rhan o Caru Cymru – menter wedi ei harwain gan Cadwch Gymru'n Daclus ac awdurdodau lleol i ddileu sbwriel a gwastraff. Mae Caru Cymru wedi derbyn cyllid trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Ewch i wefan Cadwch Gymru'n Daclus am fwy o wybodaeth: www.keepwalestidy.cymru

DIWEDD

Am ymholiadau'r cyfryngau, cysylltwch â Amy Lloyd. Epost comms@keepwalestidy.cymru neu ffoniwch 07875 662803

Nodiadau i olygyddion:

1. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn elusen sydd yn gweithio ar draws Cymru i ddiogelu'r amgylchedd nawr ac i'r dyfodol www.keepwalestidy.cymru
2. Mae Caru Cymru yn fudiad cynhwysol wedi ei arwain gan Cadwch Gymru'n Daclus a phartneriaid awdurdodau lleol i ddileu sbwriel a gwastraff. Nod Caru Cymru yw ysbrydoli pobl Cymru i weithredu a gofalu am ein hamgylchedd. Nid yw'n ymwneud â glanhau yn unig; mae hefyd yn ymwneud ag atal sbwriel rhag digwydd yn y lle cyntaf.



carucymru

Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales

3. Mae *Pa Mor Lân Yw Ein Strydoedd* wedi cael ei baratoi gan Cadwch Gymru'n Daclus ac mae'n grynodedb o'r canfyddiadau a gasglwyd gan arolygon y System Reoli ar gyfer Archwilio Amgylchedd Lleol (LEAMS) a gynhaliwyd ar draws Cymru ers 2007-08. Mae'r arolygon yn cynnwys sampl o 6% o strydoedd, wedi eu dewis ar hap o restrau llawn o briffyrdd a fabwysiadwyd gan bob awdurdod lleol. Mae'r canlyniadau ar gyfer strydoedd yn unig ac nid ydynt yn ymestyn i barciau, mannau gwyrdd, traethau na ffyrdd prysur. Mae'r adroddiad a'r fethodoleg ar gael ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus

www.keepwalestidy.cymru



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tiddy